

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Mawrth 15ed 2017 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul am 7.30y.h. Cynhaliwyd y cyfarfod ar y dyddiad yma gan fod cyfarfod Chwefror wedi cael ei ohirio oherwydd marwolaeth mam y Clerc. Cydymdeimlwyd â'r Clerc ar rhan y Cyngor yn ei phrofedigaeth.

1. **03/17 PRESENNOL:** Yn y gadair Cyng. Adrian Thomas, Cyngorwyr: Jamie Ayres, John Crossley, Ian Davies, Delyth Evans, Brenda Jones, Christopher Jones, Nesta Jones, Mary Phillips, Marc Rees, Dilwyn Smith, John Wigley. Clerc – Stella Jones
2. **03/17 HEFYD YN BRESENNOL:** Cyng. Sir K Howell, Cyfieithydd
3. **03/17 YMDDIHEURIADAU:** Dim
4. **03/17 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Cyng. J Crossley – 6.7.i 03/15 Materion yn Codi
Cyng. D Smith – 6.7.i 03/15 Materion yn Codi
Cyng. M Rees – 6.7.i.03/15 Materion yn Codi
5. **03/17 HEDDLU:** PC Kelly Williams.
Soniwyd bod ci yng nghoedwig Henllan yn ymosod ar gŵn arall – yr heddlu yn gwybod pwy yw'r person sy'n berchen y ci.
6. **03/17 COFNODION:** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Ionawr 30ain 2017 a'u cael yn gywir -
Cynigydd – Cyng. M Phillips
Eilydd – Cyng. J Ayres
7. **03/17 MATERION YN CODI:**
 - 12.i.01/14. b)Audio Trail – dim gwybodaeth wedi dod wrth Caroline Roberts.
 - 6.i. Pwyllgor y Parc – Cafwyd adroddiad gan Cyng D Evans ar rhan y tri a fu'n edrych drwy'r ddogfen drafft a llythyr y Clwb Pêl Droed. Derbyniwyd yr argymhellion a cytunwyd i'r Clerc fynd a'r argymhellion yma i'r cyfreithiwr.
 - 7.xv.05/16 – Caeau Canmlwyddiant – Clerc wedi llenwi'r ffurflen cofrestru.
 - 10.ii.07/16 Toiledau Parc Puw – Clerc heb glywed dim pellach wrth y Cyngor Sir
 - 10.i.09/16 Parc Pentrecwrt – Clerc wedi gwneud ymholiadau ynghylch Atebolrwydd Cyhoeddus y Cyngor – *dwedodd y cwmni yswiriant os nad oedd y Cyngor yn rhedeg y Parc na fyddai'r polisi yn gyfrifol i dalu unrhyw hawliau. Derbyniwyd cynnig ac eiliwyd y cynnig y dylai'r Cyngor yn y dyfodol ond talu am Atebolrwydd Cyhoeddus y Parciau lleol yn y dyfodol ac nid am yr offer.*
 - 11.iii.10/16 Cat's Eyes o Tŷ Coch i Llangeler – aros am ymateb pellach.
 - 10. 03/17 i. Mainc Cwmpengraig – Clerc wedi gweld y safle ac mae boc ar yr hen safle, cytunwyd yr ai rhai o'r cyngorwyr yn mynd i ymweld a'r safle i gael gweld os oedd rhywle arall i osod y fainc.
 - 5.01/17 Arwyddion - Nododd y Clerc bod yr arwydd cyflymdra ar bwys yr hen Reithordy wedi mynd i gael ei drwsio ac mae'r un sydd ochr arall i Meysydd yn gweithio ar hyn o bryd.
7. **03/17 GOHEBIAETH:**
 - i. Hysbysiad o Etholiad Cyngorwyr Sir a Chymuned 04/05/2017
 - ii. CSG – cau ffordd dros dro- yr U5470, Drefelin, Llandysul – *cylchlythyrwyd*
 - iii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 30.01.2017 - 03.02.2017 – *cylchlythyrwyd*
 - iv. ebost – ULIC – Hyfforddiant Datganoli Gwasanaethau - Caerfyrddin - dydd Mawrth 21ain Chwefror - 6.30-9pm – *cylchlythyrwyd*
 - v. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 06.02.2017 - 10.02.2017 – *cylchlythyrwyd*
 - vi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 13.02.2017 – 17.02.2017 – *cylchlythyrwyd*
 - vii. ebost – Eiriol – Cylchlythyr Ionawr 2017 – *cylchlythyrwyd*
 - viii. ebost – CSG – Hysbysiad Cyhoeddus – 20mya a 30mya arbrofol yn Rhos a Saron, Llandysul(HTTR-14438) – *cylchlythyrwyd*
 - ix. ebost – Ceisiadau Cynllunio 06.03.2017- 10.03.2017 – *cylchlythyrwyd*
 - x. ebost – ULIC ar rhan Comisiwn Ffiniau i Gymru – *cylchlythyrwyd*
 - xi. ebost – CSG – Hyfforddiant Arolygu Caeau Chwarae – *cylchlythyrwyd – dangosodd Cyng J Wigley diddordeb.*
 - xii. Tystysgrif Difetr a dros dro Golau Nadolig Pont Tweli, Llandysul
 - xiii. Ciosgau BT – ymgynghoriad tan 20/03/2017
8. **03/17 CYNLLUNIO**
 - Cais Ymgynghori llawn**
 - W/35079 – Mr Marcus Basu, Gorllwyn Deg, Cwmdud SA33 6AX – dymchwel yr adeilad presennol a'i amnewid ag adeilad newydd
 - W/35136 – Mr Roger Broome, Penbanc, Felindre, Llandysul SA44 5XE – dymchwel hen siediau godro a stablau a chodi ysgubor ar gyfer defnydd amaethyddol a digwyddiadau, storfa amlwyth llongau a chodi pabell fawr[marci]/tipi – *gofyn i'r adran gynllunio ystyried y byddai cynnydd yn y drafnidiaeth a byddai hyn yn anaddas i gyflwr yr hewlydd yn arwain at y safle.*

9. 03/17 MATERION ARIANNOL

Taliadau ar gyfer Goleuadau Troedffyrdd - Blwyddyn Ariannol 2017/2018	Cynnal a Chadw.....	£10,952.16
	Ynni	£4,848.05
	TAW	£3,160.04
		£18,960.25

a. Anfonebau

- i. LYNWEN DAVIES – cyfieithu yng nghyfarfod 15/03/2017£ [heb dderbyn anfoneb eto]
- ii .HIRIO NEUADD YR EGLWYS – cyfarfod 27/02/17£14.00
[caniatâd i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn]
- iii CSG – Goleuo Llwybrau 2016/17£17,682.91
[C a Ch - £10,695.72, Ynni - £4,040.04, TAW- £2,947.15]
- Arian yn y Banc ar 13/02/2017.....£29,300.45

b. S/O

- Cyflog y Clerk£433.33

c. Credid

- Rhent Cwmins Waungilwen£480.00

ch. Cais am Gefnogaeth Ariannol

- Gofal mewn Galar Sir Gâr
- Apêl Ambiwylans Awyr
- Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro - £50

10. MATERION ANGEN TRAFODAETH

Dim

11. SYLWADAU'R CYNGHORWYR

1. Cyng I Davies – i. – mae carafán ar safle dau fwthyn Llysnewydd –gofyn beth sy'n digwydd ar rhan y cynllunio –
dwedwyd bod y perchennog wrthi ar hyn o bryd yn ail wneud bwthyn ar safle arall a bydd mwy na thebyg yn mynd i fyw ar y safle hynny.
ii. cwynodd am y ceir sy'n cael ei cadw tu allan i dŷ yng Nghwmpengraig – *dwedodd Cyng K Howell bod y perchennog wedi cael Gorchymyn Gorfodaeth i symud y ceir beth amser yn ôl – angen edrych mewn i hyn.*
2. Cyng J Wigley – i. dwy goeden yn hongian dros y ffordd ger Moriath Glass Cwmpengraig – *Cyng K Howell i gysylltu a'r Cyngor Sir*
ii. dyw enw y chwaraewr Rygbi Gareth Davies ddim ar wefan y Cyngor Sir ac yn gofyn a oes modd gwneud rhywbeth i unioni hyn
3. Cyng D Smith – i. Dwedodd ei fod wedi pigo bocsy y diffibrilydd lan o'r ysgol ac wedi gweld Emyr Jones siop Premier ynghylch gosod y bocsy, a bod Emyr wedi gofyn am ychydig o wythnosau cyn gosod y bocsy fel pan bydd yn gwneud newidiadau i'r siop y bydd yn galler cael ei osod ar yr un pryd – *cytunodd y Cyngor i hyn.*
4. Cyng J Crossley – mae dwy goeden yn goleddu am yr hewl cyn dod i Bentrecagal
5. Cyng K Howell – i. Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno i roi arian i ail drwsio'r palmant o Ysgol Bryn Saron lan i Wenallt ac wedyn o Maesyrfhaf lan am Rhos i ddechrau mis nesaf.
ii. cyflwr yr hewl drwy bentref Felindre yn ddifrifol ac mae'n gobeithio bydd y Cyngor Sir yn barod i roi arian i'w thrwsio yn y flwyddyn ariannol nesaf. Dwedwyd bod cyflwr rhiw Cyrff yn ddifrifol hefyd.

12. CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul ar nos Lun Mawrth 27ain 2017 am 7.30 yh

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.30yh

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

